# FREEDOM OF INFORMATION ACT 2000

# PUBLICATION SCHEME OF LLANDYFAELOG COMMUNITY COUNCIL

# LLANDYFAELOG COMMUNITY COUNCIL

## PUBLICATION SCHEME

This publication scheme commits Llandyfaelog Community Council to make information available to the public as part of its normal business activities. The information covered is included in the classes of information mentioned below, where this information is held by the Council. Additional assistance is provided to the definition of these classes in sector specific guidance manuals issued by the Information Commissioner.

The scheme commits Llandyfaelog Community Council

- To proactively publish or otherwise make available as a matter of routine, information, including environmental information, which is held by the Council and falls within the classifications below.
- To specify the information which is held by the Council and falls within the classifications below.
- To proactively publish or otherwise make available as a matter of routine, information in line with the statements contained within this scheme.
- To produce and publish the methods by which the specific information is made routinely available so that it can be easily identified and accessed by members of the public.
- To review and update on a regular basis the information the Council makes available under this scheme.
- To produce a schedule of any fees charged for access to information which is made proactively available.
- To make this publication scheme available to the public.
- To publish any dataset held by the Council that has been requested, and any updated versions it holds, unless the Council is satisfied that it is not appropriate to do so; to publish the dataset, where reasonably practicable, in an electronic form that is capable of re-use; and, if any information in the dataset is a relevant copyright work and the Council is the only owner, to make the information available for re-use under the terms of the Re-use of Public Sector Information Regulations 2015, if they apply, and otherwise under the terms of the Freedom of Information Act section 19. The term 'dataset' is defined in section 11(5) of the Freedom of Information Act. The term 'relevant copyright work' is defined in section 19(8) of that Act.

### Classes of Information

**Who we are and what we do.**

Organisational information, locations and contacts, constitutional and legal governance.

**What we spend and how we spend it.**

Financial information relating to projected and actual income and expenditure, tendering, procurement and contracts.

**What our priorities are and how we are doing.**

Strategy and performance information, plans, assessments, inspections and reviews.

**How we make decisions.**

Policy proposals and decisions. Decision making processes, internal criteria and procedures, consultations.

**Our policies and procedures.**

Current written protocols for delivering our functions and responsibilities.

**Lists and Registers.**

Information held in registers required by law and other lists and registers relating to the functions of the Council.

**The Services we Offer.**

Advice and guidance, booklets and leaflets, transactions and media releases. A description of the services offered.

**The classes of information will not generally include**:

- Information the disclosure of which is prevented by law, or exempt under the Freedom of Information Act, or is otherwise properly considered to be protected from disclosure.
- Information in draft form.
- Information that is no longer readily available as it is contained in files that have been placed in archive storage, or is difficult to access for similar reasons.

**The method by which information published under this scheme will be made available**

Llandyfaelog Community Council will indicate clearly to the public what information is covered by this scheme and how it can be obtained.

Where it is within the capability of Llandyfaelog Community Council, information will be provided on a website. Where it is impracticable to make information available on a website or when an individual does not wish to access the information by the website, Llandyfaelog Community Council will indicate how information can be obtained by other means and provide it by those means.

In exceptional circumstances some information may be available only by viewing in person. Where this manner is specified, contact details will be provided. An appointment to view the information will be arranged within a reasonable timescale.

Information will be provided in the language in which it is held or in such other language that is legally required. Where the Council is legally required to translate any information, it will do so.

Obligations under disability and discrimination legislation and any other legislation to provide information in other forms and formats will be adhered to when providing information in accordance with this scheme.

**Charges which may be made for Information published under this scheme**

The purpose of this scheme is to make the maximum amount of information readily available at minimum inconvenience and cost to the public. Charges made by the Council for routinely published material will be justified and transparent and kept to a minimum.

Material which is published and accessed on a website will be provided free of charge.

Charges may be made for information subject to a charging regime specified by Parliament. Charges may be made for actual disbursements incurred such as:

- Photocopying
- postage and packaging
- the costs directly incurred as a result of viewing information

Charges may also be made for information provided under this scheme where they are legally authorised, they are in all the circumstances, including the general principles of the right of access to information held by Llandyfaelog Community Council, justified and are in accordance with a published schedule or schedules of fees which is readily available to the public.

Charges may also be made for making datasets (or parts of datasets) that are relevant copyright works available for re-use. These charges will be in accordance with the terms of the Re-use of Public Sector Information Regulations 2015, where they apply, or with regulations made under section 11B of the Freedom of Information Act, or with other statutory powers of the Council.

If a charge is to be made, confirmation of the payment due will be given before the information is provided. Payment may be requested prior to provision of the information.

**Written Requests**

Information held by Llandyfaelog Community Council that is not published under this scheme can be requested in writing, when its provision will be considered in accordance with the provisions of the Freedom of Information Act.

**Data Protection**

Llandyfaelog Community Council recognises it must protect confidential and/or sensitive information about Councillors, employees and the public. This policy should therefore be read in conjunction with the Council Information and Data Protection Policy.

# DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000

# CYNLLUN CYHOEDDI
# CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG

# CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG

## CYNLLUN CYHOEDDI

Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn ymrwymo Cyngor Cymuned Llandyfaelog i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol. Mae'r wybodaeth a drafodir yn cael ei chynnwys yn y dosbarthiadau o wybodaeth a grybwyllir isod, pan fydd y wybodaeth yma yn cael ei chadw gan y Cyngor. Rhoddir cymorth ychwanegol i ddiffinio'r dosbarthiadau hyn mewn llawlyfrau cyfarwyddyd penodol i sectorau a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r cynllun yn ymrwymo Cyngor Cymuned Llandyfaelog i:

- Gyhoeddi yn rhagweithiol neu sicrhau bod gwybodaeth ar gael fel rhan arferol o'i batrwm, gan gynnwys gwybodaeth amgylcheddol, sy'n cael ei chadw gan y Cyngor ac sy'n disgyn i'r dosbarthiadau isod.
- Nodi'r wybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Cyngor ac sy'n disgyn i'r dosbarthiadau isod.
- Gyhoeddi yn rhagweithiol neu sicrhau bod gwybodaeth ar gael fel rhan arferol o'i batrwm yn unol â'r datganiadau sydd yn y cynllun hwn.
- Gynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau y bydd y wybodaeth benodol ar gael fel arfer fel y gall aelodau o'r cyhoedd ei hadnabod a'i defnyddio yn rhwydd.
- Adolygu a diweddaru'r wybodaeth y mae'r Cyngor yn sicrhau ei bod ar gael dan y cynllun hwn yn gyson.
- Gynhyrchu rhestr brisiau o unrhyw ffioedd a godir am gael mynediad at wybodaeth sydd ar gael yn rhagweithiol.
- Sicrhau bod y cynllun cyhoeddi hwn ar gael i'r cyhoedd.
- Gyhoeddi unrhyw set o ddata a gedwir gan y Cyngor y gofynnwyd amdani, ac unrhyw fersiynau wedi eu diweddaru y mae'n eu cadw, oni bai bod y Cyngor yn fodlon nad yw'n briodol gwneud hynny; cyhoeddi'r set data, pan fydd yn rhesymol o ymarferol, ar ffurf electronig y gellir ei ailddefnyddio; ac, os bydd unrhyw wybodaeth yn y set data yn waith hawlfraint perthnasol ac mai'r Cyngor yw'r unig berchennog, sicrhau bod y wybodaeth ar gael i'w hailddefnyddio dan amodau'r Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015, os ydynt yn berthnasol, ac fel arall dan amodau adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Diffinnir 'set data' yn adran 11(5) Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Diffinnir 'gwaith hawlfraint perthnasol' yn adran 19(8) o'r Ddeddf honno.

**Dosbarthiadau gwybodaeth**

**Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud.**

Gwybodaeth am y sefydliad, lleoliadau a chysylltiadau, llywodraethiant cyfansoddiadol a chyfreithiol.

**Beth yr ydym yn ei wario a sut yr ydym yn ei wario.**

Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a ragwelir ac incwm gwirioneddol a gwariant, tendro, caffael a chontractau.

**Beth yw ein blaenoriaethau a sut yr ydym yn gwneud.**

Gwybodaeth am strategaeth a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygiadau ac adolygiadau.

**Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau.**

Cynigion a phenderfyniadau polisi. Prosesau llunio penderfyniadau, meini prawf mewnol a gweithdrefnau, ymgynghoriadau.

**Ein polisïau a gweithdrefnau.**

Protocolau ysgrifenedig presennol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a chyfrifoldebau.

**Rhestrau a chofrestri**.

Gwybodaeth a gedwir mewn cofrestri sy'n ofynnol gan y gyfraith a rhestrau eraill a chofrestri yn ymwneud â swyddogaethau'r Cyngor.

**Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig.**

Cyngor a chyfarwyddyd, llyfrynnau a thaflenni, trafodion a datganiadau i'r wasg. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.

**Yn gyffredinol ni fydd y dosbarthiadau o wybodaeth yn cynnwys:**

- Gwybodaeth y mae ei datgelu yn cael ei atal gan y gyfraith, neu sydd wedi ei heithrio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu sydd yn cael ei hystyried yn briodol yn wybodaeth sy'n cael ei diogelu rhag ei datgelu.
- Gwybodaeth ar ffurf drafft.
- Gwybodaeth nad yw bellach ar gael yn rhwydd gan ei bod mewn ffeiliau sydd wedi eu harchifo, neu sy'n anodd ei chyrraedd am resymau tebyg.

**Y dull y bydd gwybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn ar gael trwyddo**

Bydd Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn dynodi yn glir i'r cyhoedd pa wybodaeth sy'n cael ei chynnwys dan y cynllun a sut y gellir cael gafael arni.

Pan fydd o fewn gallu Cyngor Cymuned Llandyfaelog, bydd gwybodaeth yn cael ei darparu ar wefan. Pan fydd yn anymarferol rhoi gwybodaeth ar wefan neu pan na fydd unigolyn yn dymuno gweld y wybodaeth ar y wefan, bydd Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn dynodi sut y gellir cael gwybodaeth trwy ddulliau eraill ac yn ei darparu trwy'r dulliau hynny.

Mewn amgylchiadau eithriadol gall peth gwybodaeth fod ar gael trwy ei gweld yn bersonol yn unig. Pan nodir y dull hwn, bydd manylion cyswllt yn cael eu rhoi. Bydd apwyntiad i weld y wybodaeth yn cael ei wneud o fewn amser rhesymol.

Bydd y wybodaeth yn cael ei darparu yn yr iaith y mae'n cael ei chadw ynddi neu mewn iaith arall sy'n ofynnol yn gyfreithiol. Pan fydd yn ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor gyfieithu unrhyw wybodaeth, bydd yn gwneud hynny.

Bydd ymrwymiadau dan ddeddfwriaeth anabledd a gwahaniaethu ac unrhyw ddeddfwriaeth arall i roi gwybodaeth ar ffurf a fformatau eraill yn cael eu hufuddhau wrth roi gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwn.

**Taliadau y gellir eu codi am wybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn**

Diben y cynllun hwn yw sicrhau bod cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar gael yn rhwydd gyda chyn lleied o anghyfleustra a chost i'r cyhoedd â phosibl. Bydd y taliadau a godir gan y Cyngor am ddeunydd a gyhoeddir yn arferol yn cael eu cyfiawnhau ac yn dryloyw ac yn cael eu cadw cyn lleied â phosibl.

Bydd deunydd sy'n cael ei gyhoeddi a'i ddarllen ar wefan yn cael ei roi yn ddi dâl.

Gellir codi tâl am wybodaeth sy'n ddarostyngedig i drefn godi tâl a nodir gan y Senedd. Gellir codi tâl am daliadau gwirioneddol a dynnir fel:

- Llungopïo
- postio a phacio
- y costau a dynnwyd yn anuniongyrchol o ganlyniad i edrych ar y wybodaeth

Gellir codi tâl hefyd am wybodaeth a roddir dan y cynllun hwn pan fydd caniatâd i wneud hynny yn gyfreithiol, ei fod dan yr holl amgylchiadau, gan gynnwys egwyddorion cyffredinol yr hawl i fynediad at wybodaeth a gedwir gan Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn cael ei gyfiawnhau ac yn unol â rhestr gyhoeddedig neu restrau o ffioedd sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.

Gellir codi tâl hefyd am wneud setiau data (neu setiau data rhannol) sy'n waith hawlfraint perthnasol sydd ar gael i'w hailddefnyddio.

Bydd y taliadau yma yn unol ag amodau'r Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015, pan fyddant yn berthnasol, neu â rheoliadau a wnaed dan adran 11B o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu gyda phwerau statudol eraill y Cyngor.

Os bydd tâl yn cael ei godi, rhoddir cadarnhad o'r taliad dyledus cyn rhoi'r wybodaeth. Gellir gofyn am daliad cyn rhoi'r wybodaeth.

**Ceisiadau ysgrifenedig**

Gellir gofyn am wybodaeth a gedwir gan y Cyngor nad yw wedi ei gyhoeddi dan y cynllun hwn yn ysgrifenedig, a bydd ei darparu yn cael ei ystyried yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.